Estyn

*Rhagoriaeth i bawb - Excellence for all*

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

**ADRODDIAD AR Y GWASANAETHAU GYRFAOEDD YNG NGHYMRU**

# Cefnogi Llwybrau Dysgu

Y gwasanaethau ychwanegol y mae Gyrfa Cymru
yn eu darparu i gynorthwyo dysgwyr i wneud
penderfyniadau o fewn Llwybrau Dysgu 14-19s

Gorffennaf 2008

Iechyd ar Waith
Health at Work

BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

**Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:**

- ysgolion ac unedau meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau addysg lleol (AALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymunedol;
- AALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant rhaglenni hyfforddi a ariennir gan Yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)**

Ⓗ **Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

| **Cynnwys** | **Tudalen** |
|---|---|


| | |
|---|---|
| **Cyflwyniad** | **1** |
| **Cefndir** | **3** |
| **Prif ganfyddiadau** | **5** |
| **Argymhellion** | **6** |
| **Cefnogi Llwybrau Dysgu** | **7** |
| Partneriaethau strategol sy’n gwella’r gwaith o gynllunio Llwybrau Dysgu | 7 |
| Ehangu dewis a hyblygrwydd | 9 |
| Cefnogi cyflwyno’r craidd dysgu | 9 |
| **Cymorth i ddysgwyr** | **11** |
| Rôl hyfforddwyr dysgu | 11 |
| Cymorth personol | 12 |
| Cyngor ac arweiniad am yrfaoedd | 13 |
| **Rhestr termau** | **15** |

## Cyflwyniad

1 Cyhoeddodd Estyn yr adroddiad hwn yn dilyn cais gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r adroddiad yn canolbwyntio ar y gwasanaethau ychwanegol y mae Gyrfa Cymru yn eu darparu, neu wedi helpu partneriaid strategol i'w darparu, sy'n cynorthwyo dysgwyr i wneud penderfyniadau o fewn Llwybrau Dysgu 14-19. Mae'r adroddiad hefyd yn gwneud argymhellion i gwmnïau Gyrfa Cymru adeiladu arnynt ac ymestyn yr arfer dda a nodwyd gan arolygwyr.

2 Ym mis Ebrill 2001, daeth y cwmnïau gyrfaoedd yng Nghymru at ei gilydd dan un faner gyffredin, sef Gyrfa Cymru. Defnyddir y term hwn yn yr adroddiad cylch gwaith wrth gyfeirio at yr holl gwmnïau gyrfaoedd ledled Cymru. Mae Gyrfa Cymru yn cynnwys chwe chwmni unigol:

- Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro;
- Gyrfa Cymru Gwent;
- Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys;
- Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain;
- Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin; a
- Gyrfa Cymru Gorllewin.

3 Mae Cymdeithas Gyrfa Cymru yn gwmni a sefydlwyd gan gwmnïau unigol Gyrfa Cymru i roi cymorth iddynt wrth ddatblygu gwasanaethau a mentrau Cymru gyfan, fel gwefan Gyrfa Cymru.

4 Mar gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gontract gyda chwmnïau Gyrfa Cymru i ddarparu cyngor, arweiniad, lleoliadau a gwasanaethau eraill i:

- y rheiny sydd mewn addysg amser llawn mewn ysgolion neu golegau addysg bellach;

- y rheiny sydd mewn addysg ran-amser i'w paratoi ar gyfer gwaith;

- unrhyw bobl dan 21 oed sydd wedi gadael addysg (ac eithrio addysg uwch) neu hyfforddiant amser llawn, hyd at ddwy flynedd ynghynt;

- y rheiny sydd ag anableddau (gan gynnwys y rheiny ag anableddau dysgu), hyd nes iddynt benderfynu ar eu dewis gyrfa;

- sefydliadau addysg;

- cyflogwyr;

- darparwyr hyfforddiant; a

- rhieni a gofalwyr.

5 Maent hefyd yn darparu:

- gwasanaethau arweiniad i oedolion;
- Porth Ieuenctid[1]; a
- Cysylltiadau Busnes Addysg (CBA), gan gynnwys cynorthwyo sefydliadau i ddarparu lleoliadau profiad gwaith i bobl ifanc mewn addysg.

6 Ymwelodd arolygwyr Estyn â phump o'r chwe chwmni Gyrfa Cymru a Chymdeithas Gyrfa Cymru  Gwnaethant siarad gyda staff a phartneriaid Gyrfa Cymru ac archwilio tystiolaeth ddogfennol.  Cynhaliwyd yr ymweliadau ym mis Chwefror 2008.  Cafodd Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin arolygiad cwmni llawn ym mis Medi/Hydref 2007, felly ni ymwelodd arolygwyr Estyn â'r cwmni hwn.

7 Fe wnaeth yr adroddiad hwn ystyried prif ganfyddiadau adroddiadau diweddar Estyn, gan gynnwys:

- Adroddiad ar gynnydd ac effeithiolrwydd Gyrfa Cymru Ar-lein[2] (Mawrth 2006);
- Cymwysterau cyfredol a menter Llwybrau Dysgu 14-19[3]; (Adroddiad cylch gwaith 2006); a
- Dewis a hyblygrwydd i ddysgwyr 14-19 oed[4] (Mawrth 2008).

---

[1] Mae Porth Ieuenctid yn rhaglen sy'n cael ei rhedeg gan gwmnïau gyrfaoedd i gynorthwyo pobl ifanc wrth iddynt symud i'r farchnad swyddi neu addysg bellach.
[2] http://new.wales.gov.uk/docrepos/40382/4038232/403829/4038291/403829/estyn-careers-wales-online-2.pdf?lang=cy
[3] http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Remit_17__14to19_Learning_pathways_2005_2006.pdf
[4] http://www.estyn.gov.uk/publications/cy_Learning_Pathways_Report.pdf

## Cefndir

8 Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgrifio Llwybrau Dysgu fel profiadau dysgu pob unigolyn rhwng 14 a 19 oed. Mae gan y dysgwyr hawl i Lwybr Dysgu, sy'n cynnwys dysgu ffurfiol, dewis a hyblygrwydd ehangach o ddewisiadau, cymorth i fodloni eu hanghenion unigol a Chraidd Dysgu o fedrau, gwybodaeth a phrofiad sy'n paratoi dysgwyr ar gyfer bywyd.

9 Yn ei dogfen 'Canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19'[5] a 'Canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19 II'[6], mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datgan ei nod i ddefnyddio Llwybrau Dysgu fel dull o gyrraedd ei nod, sef bod "95 y cant o bobl ifanc, erbyn eu bod yn 25 oed, yn barod ar gyfer gwaith medrau uchel neu addysg uwch erbyn 2015".

10 Bwriad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw y bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn galluogi mwy o bobl ifanc i wireddu eu potensial fel eu bod yn fwy parod ar gyfer y byd gwaith, yn fwy gwybodus ac yn ddinasyddion mwy gweithgar. Eu bwriad yw y bydd Llwybrau Dysgu 14-19 yn ehangu'r dewisiadau i ddysgwyr ac yn annog mwy o rai 16 oed i symud ymlaen i ddysgu ymhellach mewn addysg a hyfforddiant.

11 Mae chwe elfen allweddol mewn Llwybr Dysgu. Mae tair o'r elfennau dysgu allweddol yn galluogi dysgwyr i gael y cymorth a'r arweiniad sydd eu hangen arnynt. Mae'r chwe elfen allweddol wedi'u nodi isod mewn dyfyniad o 'Canllawiau Llwybrau Dysgu 14-19':

| | | |
|---|---|---|
| | *Llwybr Dysgu* | |
| 1 | LLWYBR DYSGU UNIGOL | Llwybr Dysgu wedi'i addasu ar gyfer yr unigolyn (gan gydnabod gofynion statudol) yn arwain at gymwysterau cydnabyddedig a chredydau, dysgu priodol ar y lefel(au) cywir ar yr amser priodol sy'n addas ar gyfer anghenion, gallu a diddordebau'r dysgwr ac sy'n rhedeg o 14-19 oed a thu hwnt |
| 2 | RHAGOR O DDEWIS A HYBLYGRWYDD | Rhagor o ddewis o opsiynau perthnasol o nifer o feysydd', a mwy o hyblygrwydd i amrywio cyflymder a chyfeiriad y llwybr |
| 3 | Y CRAIDD DYSGU | Dysgu ehangach sy'n cynnwys y sgiliau, y wybodaeth, y ddealltwriaeth, y gwerthoedd a'r profiadau y bydd ar bob person ifanc 14-19 oed eu hangen, beth bynnag yw eu Llwybr Dysgu |
| | *Cymorth i Ddysgwyr*[2] | |
| 4 | ANOGWR DYSGU | Hawl i gael cymorth wrth ddysgu: cyfle rheolaidd i drafod yr hyn a ddysgir a'r cynnydd a wneir |
| 5 | CYMORTH PERSONOL | Cyfle i gael cymorth personol pan fydd angen: gall y dysgwr ei geisio ei hunan neu, os bydd y dysgwr yn cytuno, gall rhywun arall ei gyfeirio/chyfeirio at y gefnogaeth |
| 6 | CYNGOR AC ARWEINIAD AM YRFAOEDD | Cyngor ac arweiniad diduedd am yrfaoedd a fydd o gymorth i Lwybr Dysgu'r unigolyn |

[5] Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 37/2004, Gorffennaf 2004
[6] Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru Rhif: 17/2006, Ebrill 2006

12 Mae pob ardal awdurdod lleol wedi sefydlu Rhwydwaith Dysgu 14-19. Mae aelodau'r rhwydweithiau'n cynnwys partneriaid allweddol sy'n cyfrannu at ddarparu addysg, hyfforddiant a gwaith. Mae gan bob rhwydwaith gynrychiolydd o'i gwmni Gyrfa Cymru lleol.

## Prif ganfyddiadau

13 Mae cwmnïau Gyrfa Cymru'n cyfrannu'n dda i bartneriaethau strategol â sefydliadau eraill i wella'r gwaith lleol o gynllunio Llwybrau Dysgu 14-19. Mae Rhwydweithiau Dysgu lleol yn gwerthfawrogi'r ffaith fod cynrychiolwyr cwmnïau gyrfaoedd yn uwch reolwyr sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau strategol.

14 Mae cwmnïau Gyrfa Cymru'n darparu lefel briodol o staff ac adnoddau sy'n helpu'r Rhwydweithiau Dysgu i gyrraedd eu nodau. Mae holl gwmnïau Gyrfa Cymru yn cynorthwyo Rhwydweithiau Dysgu lleol yn dda i fynd i'r afael â'r blaenoriaethau lleol sy'n cael eu nodi gan y rhwydweithiau er mwyn helpu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gyrfa.

15 Mae holl gwmnïau Gyrfa Cymru yn chwarae rhan ddefnyddiol o ran tynnu sylw Llywodraeth Cynulliad Cymru at ddiffygion yn y lleoedd dysgu yn y gwaith sydd ar gael.

16 Mae'r holl gwmnïau'n cyfrannu'n dda at ymestyn y ddarpariaeth a gwella ansawdd addysg sy'n canolbwyntio ar waith, gan gynnwys dulliau amgen o brofiad gwaith traddodiadol a gweithgareddau sy'n datblygu entrepreneuriaeth.

17 Mae cwmnïau Gyrfa Cymru wedi cydweithio'n dda iawn â Chymdeithas Gyrfa Cymru i ddatblygu mwy ar wefan Gyrfa Cymru. Mae nodweddion uwch y wefan yn ddefnyddiol iawn ac yn galluogi dysgwyr i chwilio am ddewisiadau 14+, dewisiadau 16+ a lleoliadau profiad gwaith.

18 Mae gan holl gwmnïau Gyrfa Cymru strategaethau defnyddiol ar waith, fel Porth Addysg, sy'n rhoi cymorth personol ychwanegol i ddysgwyr y nodwyd gan ysgolion a cholegau bod angen cymorth ychwanegol arnynt i lwyddo. Mae Porth Ieuenctid yn rhoi cymorth da i ddysgwyr sydd wedi gadael addysg.

19 Mae holl gwmnïau Gyrfa Cymru yn cynhyrchu gwybodaeth o ansawdd da am y farchnad lafur leol ac yn rhoi dadansoddiadau defnyddiol o gyrchfannau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw rhai Rhwydweithiau Dysgu 14-19 yn defnyddio ystadegau cyrchfannau a gwybodaeth am y farchnad lafur leol yn gyson i lywio gwaith cynllunio.

20 Mae rhai Rhwydweithiau Dysgu yn ansicr ynghylch pa wasanaethau y mae cyllid craidd cwmnïau gyrfaoedd yn eu cwmpasu.

21 Ar y cyfan, mae Gyrfa Cymru yn cynorthwyo datblygiad hyfforddwyr dysgu yn dda ledled Cymru. Fodd bynnag, nid yw rôl yr hyfforddwyr dysgu yn gyson nac yn ddigon datblygedig hyd yma. Nid yw staff a dysgwyr partneriaid yn ddigon eglur o ran y gorgyffwrdd rhwng rolau hyfforddwyr dysgu a chynghorwyr gyrfaoedd.

22 Nid yw cwmnïau Gyrfa Cymru wedi arfarnu a rhannu arfer orau ddigon hyd yma i nodi a chytuno ar sut y gall cynlluniau busnes a strategaethau ar gyfer dyrannu adnoddau ymateb orau i effaith Llwybrau Dysgu ar anghenion arweiniad dysgwyr.

## Argymhellion

23 Er mwyn adeiladu ar arfer dda bresennol a gwella gwasanaethau i ddysgwyr o fewn Llwybrau Dysgu 14-19, dylai cwmnïau Gyrfa Cymru:

A1 sicrhau bod Rhwydweithiau Dysgu yn glir ynghylch y gwasanaethau y mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn eu darparu o fewn eu cyllid craidd;

A2 gwella dealltwriaeth partneriaid o’r ffiniau rhwng rolau hyfforddwyr dysgu a chynghorwyr gyrfaoedd; ac

A3 adolygu, ar lefel strategol, sut y gall cynlluniau busnes a modelau adnoddau ymateb yn well i ddatblygiadau Llwybrau Dysgu.

24 Dylai Rhwydweithiau Dysgu:

A4 wneud y defnydd gorau o wybodaeth am y farchnad lafur a’r wybodaeth am gyrchfannau dysgwyr y mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn eu cynhyrchu er mwyn cynllunio’r ddarpariaeth.

25 Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A5 sicrhau bod cydweddiad priodol rhwng anghenion dysgwyr ac argaeledd dysgu priodol yn y gwaith; a

A6 phennu canllawiau clir i egluro rôl hyfforddwyr dysgu a gwella cysondeb darpariaeth.

## Cefnogi Llwybrau Dysgu

### Partneriaethau strategol sy'n gwella'r gwaith o gynllunio Llwybrau Dysgu

26 Mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn cydweithio'n dda â phartneriaid strategol i gynorthwyo'r gwaith lleol i gynllunio datblygiad Llwybrau Dysgu. Maent yn cyfrannu'n dda at Rwydweithiau Dysgu lleol ar lefel strategol. Mae rhwydweithiau'n gwerthfawrogi'r ffaith bod cynrychiolwyr cwmnïau gyrfaoedd yn uwch reolwyr sydd â'r gallu i wneud penderfyniadau strategol. Lle mae ffiniau Rhwydwaith Dysgu yn cwmpasu mwy nag un cwmni Gyrfa Cymru, mae'r cwmnïau'n cydweithio'n dda i gynorthwyo gwaith cynllunio strategol y rhwydwaith. Lle mae ffiniau cwmnïau Gyrfa Cymru yn cwmpasu nifer fawr o Rwydweithiau Dysgu, mae'r holl gwmnïau'n gweitho'n dda i sicrhau eu bod yn cyfrannu'n effeithiol i'r holl rwydweithiau. Mae rheolwyr cwmnïau wedi ymateb yn dda iawn i'r galwadau helaeth ar eu hamser fel y gallant roi sylw i'r holl rwydweithiau.

**Arfer dda o ran cydweithio lleol rhwng cwmnïau Gyrfa Cymru i gefnogi Rhwydweithiau Dysgu**

Yn Sir Ddinbych, prif weithredwr Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain yw cadeirydd y Grŵp Cymorth 14-19. Mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar elfennau 4/5/6 Llwybrau Dysgu. Uwch reolwr o Gyrfa Cymru Gogledd Orllewin yw cadeirydd y Grŵp Cwricwlwm sy'n canolbwyntio ar elfennau 1/2/3 Llwybrau Dysgu. Mae'r cyfathrebu da rhwng rheolwyr y ddau gwmni gyrfaoedd yn sicrhau bod barn a blaenoriaethau cynllunio'r ddau gwmni yn cael eu cynrychioli yng nghynlluniau strategol y Rhwydwaith, ac mae rhannu'r rolau arweinyddiaeth yn lleihau'r effaith ar adnoddau'r cwmnïau.

27 Mae Rhwydweithiau Dysgu yn cael budd o'r ffaith bod cwmnïau gyrfaoedd yn cyfrannu at fwy nag un rhwydwaith oherwydd bod cwmnïau gyrfaoedd yn helpu i roi gwybod i rwydweithiau am arfer dda y maent wedi'i gweld yn y rhwydweithiau cyfagos y maent yn cyfrannu atynt.

28 Mae rhan fwyaf y rhwydweithiau o'r farn bod rôl ddiduedd cwmnïau Gyrfa Cymru wedi helpu i oresgyn rhwystrau a gwella deialog rhwng ysgolion a cholegau. Mae hyn wedi helpu i hyrwyddo cynllunio ar y cyd o fewn rhwydweithiau.

29 Mae'r holl gwmnïau gyrfaoedd yn ymateb yn dda i flaenoriaethau lleol trwy addasu eu cyfraniad i fodloni anghenion a nodwyd mewn rhwydweithiau unigol. Mae hyn wedi gwella gallu rhwydweithiau i gynllunio.

**Arfer dda o ran cefnogi rhwydweithiau lleol**

Mae Gyrfa Cymru Gwent yn defnyddio ei gyswllt â rhwydweithiau'n dda i gael mwy o gyllid ar gyfer ystod eang o fentrau. Er enghraifft, yn 2007-08, cafodd dros £300,000 i ddarparu gweithgareddau yr oedd rhwydweithiau lleol wedi'u nodi'n flaenoriaethau, fel datblygu rhaglen i ddarparu profiad gwaith estynedig i ddysgwyr. Yn ogystal â hynny, mae cynrychiolaeth Gyrfa Cymru Gwent ar bum Rhwydwaith Dysgu gwahanol wedi galluogi'r cwmni i arwain y gwaith o ddatblygu rhai gwasanaethau defnyddiol ar draws Gwent, gan ddefnyddio cronfa o gyllid gan ei aelod-rwydweithiau. Er enghraifft, defnyddiodd y cwmni'r cyllid hwn i adnabod cyflogwyr lle gallai dysgwyr ddefnyddio'r iaith Gymraeg yn ystod eu lleoliadau profiad gwaith.

Cynhaliodd Gyrfa Cymru Gorllewin astudiaeth ymchwil ddefnyddiol i Rwydwaith Dysgu Sir Benfro. Ymchwiliodd y cwmni i'r dylanwadau ar ddewisiadau disgyblion yn 16 oed ac adroddodd fod rhai pobl ifanc yn y grwpiau ffocws Blwyddyn 12 nad oeddent wedi ennill y graddau i ddechrau ar gyrsiau UA yn teimlo bod y cyrsiau galwedigaethol a oedd ar gael yn eu chweched dosbarth yn gyfyng. O ganlyniad, bu'n rhaid iddynt ddechrau ar gwrs nad oedd o ddiddordeb mawr iddynt er mwyn iddynt aros yn yr ysgol. Hefyd, nododd yr astudiaeth anfodlonrwydd ymhlith myfyrwyr UA nad oeddent wedi gallu cyfuno'r pynciau yr oeddent eu heisiau. Cyfrannodd yr astudiaeth hon at y rhwydwaith yn adolygu'r ddarpariaeth.

Chwaraeodd Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys ran ddefnyddiol mewn helpu Rhwydwaith Dysgu Pen-y-bont ar Ogwr i nodi bylchau yn y ddewislen yng nghyfnod allweddol 4. Llywiodd hyn waith cyffredinol y rhwydwaith i gynllunio'r ddarpariaeth.

Mae cwmnïau Gyrfa Cymru wedi cydweithio'n dda iawn â Chymdeithas Gyrfa Cymru i ddatblygu mwy ar wefan Gyrfa Cymru. Mae'r datblygiad hwn, a brofwyd mewn 84 ysgol ledled Cymru, yn galluogi disgyblion ysgol i wneud eu dewisiadau cyfnod allweddol 4 ar-lein. Mae staff Gyrfa Cymru wedi datblygu cytundebau lefel gwasanaeth manwl gydag ysgolion a cholegau er mwyn sicrhau bod y sefydliadau hyn yn parhau i ddiweddaru'r wybodaeth yn y gronfa ddata. Mae staff Cymdeithas Gyrfa Cymru wedi creu meddalwedd ddefnyddiol i sicrhau y gall ysgolion lwytho gwybodaeth i fyny yn gyflym ac yn rhwydd. Mae'r gronfa ddata yn rhoi gwybodaeth dda i ddysgwyr, rhieni a gofalwyr am ddewisiadau cyrsiau, gan gynnwys dewisiadau galwedigaethol. Mae ysgolion, colegau a Rhwydweithiau Dysgu hefyd yn cael gwybodaeth gynnar ddefnyddiol am y dewisiadau y mae dysgwyr yn eu gwneud ac i wella eu gallu i gynllunio. Mae rhai enghreifftiau'n ymddangos o rwydweithiau'n addasu amserlenni ac yn cyflwyno darpariaeth newydd er mwyn ystyried dewisiadau dysgwyr.

**Arfer dda o ran helpu ysgolion i gynllunio dewisiadau**

Wrth baratoi data ar gyfer gwefan Gyrfa Cymru, nododd un ysgol yng Nghaerdydd fod ei hamserlen dewisiadau'n rhy gymhleth. Anogodd hyn iddynt wneud y grwpiau dewisiadau yn symlach i ddysgwyr. Nododd un ysgol fod y feddalwedd yn rhoi gwybodaeth i'w staff ymlaen llaw am boblogrwydd pob dewis, gan helpu'r ysgol i gynllunio ei hadnoddau. Bydd y gronfa ddata ar gael i bob ysgol yn hydref 2008.

30 Mae rhai rhwydweithiau, fel Casnewydd, yn dal i fod yn ansicr ynghylch ystod y gwasanaethau y mae cwmnïau Gyrfa Cymru yn ei darparu o fewn eu cyllid craidd a pha rai sydd angen cyllid allanol ychwanegol. Mae hyn yn rhwystro eu gallu i gynllunio sut orau i ddyrannu'r adnoddau sydd ar gael o fewn rhwydwaith orau.

## Ehangu dewis a hyblygrwydd

31 Mae holl gwmnïau Gyrfa Cymru yn cynhyrchu gwybodaeth o ansawdd da am eu marchnad lafur leol ac yn darparu dadansoddiadau defnyddiol o gyrchfannau disgyblion.

**Arfer dda o ran defnyddio data i gynllunio darpariaeth**

Cynhyrchodd Gyrfa Cymru Gwent adroddiad gwybodaeth defnyddiol am y farchnad lafur a ddefnyddiwyd gan Rwydwaith Dysgu 14-19 Casnewydd i lywio'r gwaith o gynllunio darpariaeth. O ganlyniad i'r adroddiad hwn, cynyddodd y rhwydwaith ei ddarpariaeth o ran cyfleoedd hyfforddiant adeiladu 30%.

32 Gwnaeth Rhwydwaith Dysgu Sir Benfro ddefnydd da o wybodaeth Gyrfa Cymru Gorllewin am y farchnad lafur wrth ddatblygu cynllun datblygu blynyddol y rhwydwaith ac wrth gynllunio ystod y ddarpariaeth alwedigaethol y mae'n ei chynnig. Fodd bynnag, er bod enghreifftiau tebyg mewn rhwydweithiau eraill ledled Cymru, nid yw Rhwydweithiau Dysgu 14-19 yn defnyddio ystadegau cyrchfannau a gwybodaeth am y farchnad lafur leol yn ddigon cyson i lywio cynllunio.

33 Mae holl gwmnïau Gyrfa Cymru yn rhoi gwybod i Lywodraeth Cynulliad Cymru yn rheolaidd am nifer y dysgwyr nad oes lleoedd dysgu yn y gwaith addas ar gael ar eu cyfer. Mae'r rôl eirioli hon yn helpu i amlygu lle mae diffyg cyfleoedd lleol a diffygion rhanbarthol o ran darparu cyfleoedd galwedigaethol penodol. Fodd bynnag, mae'r holl gwmnïau'n adrodd bod diffygion yn argaeledd darpariaeth dysgu yn y gwaith addas yn parhau i gyfyngu ar gynnydd rhai dysgwyr ym mhob ardal.

34 Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu ei wefan i gynnwys cronfa ddata werthfawr y gall dysgwyr chwilio drwyddi i ddod o hyd i leoliad profiad gwaith. Gallant chwilio am gyfleoedd ar-lein, yn ôl maes galwedigaethol, defnydd o'r iaith Gymraeg neu leoliad. Mae'r gronfa ddata hon yn cael ei phrofi gan ddysgwyr mewn detholiad o ysgolion ledled Cymru ar hyn o bryd, cyn dod ar gael i bawb ym mis Ebrill 2008. Ledled Cymru, mae'r cyfleuster hwn yn cynyddu ystod y profiadau y gall dysgwyr ddewis ohonynt.

## Cefnogi cyflwyno'r craidd dysgu

35 Mae Gyrfa Cymru wedi cyfrannu'n dda i grŵp ymgynghorol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y fframwaith Gyrfaoedd a Byd Gwaith ac Arweiniad Atodol. Mae'r cyfraniad hwn wedi golygu bod arfer dda a ddatblygwyd o Wobr Ansawdd Gyrfa Cymru wedi dylanwadu ar arweiniad cenedlaethol.

36 Mae'r holl gwmnïau'n gwneud cyfraniad da i wella'r ddarpariaeth addysg sy'n canolbwyntio ar waith. Mae timau Cysylltiadau Busnes Addysg ym mhob cwmni wedi datblygu ystod eang o weithgareddau a rhaglenni, y maent yn eu cynnig i ysgolion. Mae'r gweithgareddau hyn yn rhoi cyfle da i ddysgwyr ymestyn eu dealltwriaeth o'r byd gwaith ac i gael profiad o entrepreneuriaeth.

37 Erbyn hyn, mae cyfran uchel iawn o ddysgwyr yn mynd allan i gael profiad gwaith yn ystod cyfnod allweddol 4. Yn y gogledd ddwyrain, mae dysgwyr yn cael achrediad defnyddiol am eu profiad gwaith, sy'n ystyried dysgu anffurfiol a dysgu heb fod yn ffurfiol.

38 Mae Gyrfa Cymru Gorllewin wedi datblygu dewisiadau eraill defnyddiol i leoliadau profiad gwaith mewn bloc mewn sectorau lle mae lleoliadau'n gyfyng neu'n anymarferol oherwydd materion fel cyfrinachedd neu gyfyngiadau iechyd a diogelwch. Mae'r dewisiadau amgen hyn yn cynnwys 'Dosbarthiadau Meistr' lle mae grwpiau o ddysgwyr yn cymryd rhan mewn sesiynau a gyflwynir gan gynrychiolwyr galwedigaethol. Mae'r strategaeth hon yn cynyddu mynediad dysgwyr at lwybrau galwedigaethol poblogaidd, fel yr heddlu.

39 Yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg, mae'r ddau rwydwaith 14-19 yn ariannu Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro i gynnal rhaglenni profiad gwaith i ddysgwyr nad ydynt yn cyflawni'n dda yn yr ysgol. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod y gwaith o fonitro iechyd a diogelwch mewn lleoliadau yn drylwyr ac yn systematig. Cytunodd y cwmni ar brotocolau gyda'r ysgol ac mae'n ymateb yn dda i geisiadau am leoliadau.

40 Mae'r cwmni hefyd wedi datblygu cofnod profiad gwaith defnyddiol i ddisgyblion ym Mlwyddyn 12, sy'n cofnodi gweithgareddau addysg sy'n canolbwyntio ar waith y dysgwyr, gan gynnwys gwaith rhan-amser. Mae dysgwyr yn defnyddio'r ddogfen hon i gael tystysgrif gan y rhwydwaith.

41 Nododd Rhwydwaith Dysgu Pen-y-bont ar Ogwr fod angen mwy o gyfle ar ddysgwyr ym Mlwyddyn 12 a 13 i weithio gyda chyflogwyr i ddatblygu medrau arweinyddiaeth. Mewn ymateb i hyn, datblygodd Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys Raglen Arweinwyr Ifanc lwyddiannus a alluogodd grwpiau penodol o ddisgyblion y chweched dosbarth i ennill medrau arweinyddiaeth a menter trwy raglen cysgodi gwaith gyda chyflogwyr mawr lleol.

**Arfer dda o ran defnyddio gwefan Gyrfa Cymru**

Mae Gyrfa Cymru wedi datblygu mwy ar ei wefan i alluogi pob dysgwr i nodi a chofnodi dysgu ffurfiol, heb fod yn ffurfiol ac anffurfiol mewn Ffeil e-Gynnydd a blog profiad gwaith defnyddiol. Mae'r rhan hon o'r wefan yn defnyddio clipiau fideo arloesol a defnyddiol i sicrhau bod dysgwyr yn deall terminoleg fel 'heb fod yn ffurfiol'. Gwnaed y gwaith hwn i wella'r wefan yn ddiweddar iawn ac felly mae'n rhy gynnar i arfarnu faint sy'n ei ddefnyddio. Fodd bynnag, mae'n cynnig potensial da i atgyfnerthu gwerth a rôl y Ffeil e-Gynnydd wrth i ddysgwyr gofnodi eu cyflawniad a chynllunio'u gyrfa.

## Cymorth i ddysgwyr

### Rôl hyfforddwyr dysgu

42 Ar y cyfan, mae Gyrfa Cymru'n cefnogi datblygiad hyfforddwyr dysgu yn dda. Ym mhob ardal yng Nghymru, mae cwmnïau Gyrfa Cymru wedi cyflwyno hyfforddiant o ansawdd da i baratoi hyfforddwyr dysgu ar gyfer eu rôl. Yn yr holl gwmnïau, mae rhai cynghorwyr gyrfaoedd wedi cwblhau hyfforddiant hyfforddwyr dysgu er mwyn eu helpu i ddeall y rhan y mae hyfforddwyr dysgu yn ei chwarae. Fodd bynnag, mae effaith y cymorth hwn yn amrywio'n fawr rhwng y rhwydweithiau.

43 Mae Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain wedi datblygu protocolau clir a systemau atgyfeirio rhwng cynghorwyr gyrfaoedd a hyfforddwyr dysgu, sy'n cyfarfod bob tymor i drafod cynnydd atgyfeiriadau. Mae staff y cwmni'n cofnodi'r trefniant hwn yn adolygiad y Cytundeb Partneriaeth, sy'n darparu ffocws da ar gyfer monitro effeithiolrwydd y berthynas rhwng y ddwy rôl. Mae'r cwmni hefyd wedi rhyddhau cydlynydd hyfforddwyr dysgu ar secondiad i raglen beilot hyfforddwyr dysgu Sir Ddinbych.

**Arfer dda o ran datblygu hyfforddwyr dysgu**

Mae cydlynydd rhaglen beilot hyfforddwyr dysgu Sir Ddinbych wedi dylanwadu ar ddatblygu hyfforddwyr dysgu yn Sir Ddinbych ac wedi helpu i greu cydlyniad rhwng hyfforddwyr dysgu a Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain. Effaith y cydlyniad hwn yw bod hyfforddwyr dysgu Sir Ddinbych wedi gwneud 43 o atgyfeiriadau i gynghorwyr gyrfaoedd a bod cynghorwyr gyrfaoedd wedi gwneud 11 o atgyfeiriadau i hyfforddwyr dysgu. Mae'r gyfradd atgyfeirio hon yn uwch nag yn yr ardaloedd eraill a gwmpesir gan y cwmni, er bod gan yr ardal hon y nifer leiaf o ysgolion. Mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y cydweithio da hwn ar gyflawniad dysgwyr a'u cynlluniau ar gyfer eu gyrfa.

44 Yng Ngyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys, mae'r Swyddog Datblygu 14-19 yn cydweithio'n dda â'r Gwasanaeth Addysg a Gwella Ysgolion. Mae hyn wedi galluogi'r cwmni i gymryd rôl arweiniol wrth gyflwyno prosiectau peilot Hyfforddwyr Dysgu ym Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae'r cwmni wedi cyflwyno hyfforddiant defnyddiol i hyfforddwyr dysgu yn y tair ardal hyn.

45 Mewn un ysgol, mae cynghorydd gyrfa Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys yn gweithio fel hyfforddwr dysgu hefyd. Er bod hyn wedi helpu rhai dysgwyr i wella'r gwaith o gynllunio gyrfa, mae'n rhy gynnar i arfarnu effaith y model hwn o gymorth gan hyfforddwr dysgu.

46 Ar y cyd â'i Rwydweithiau Dysgu lleol, mae Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro wedi sicrhau cyllid i ddatblygu rôl i hyfforddwr dysgu weithio gyda dysgwyr sy'n anodd eu cyrraedd gan nad ydynt yn gweithio gydag asiantaethau eraill. Mae'r fenter yn darparu cymorth hyblyg i 45 o ddysgwyr nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant i wella eu gallu i symud ymlaen i gyfleoedd. Mewn rhai achosion, mae dysgwyr a'u teuluoedd wedi bod yn fwy parod i weithio gyda staff y prosiect, gan eu bod yn eu hystyried yn annibynnol ar wasanaethau statudol. Mae rhai dysgwyr yn

symud ymlaen yn gyflym i ddysgu pellach neu gyfleoedd gwaith. Er enghraifft, talodd staff y prosiect i un dysgwr gael hyfforddiant fel technegydd ewinedd, a roddodd y medrau iddi ddod o hyd i waith. Er ei fod yn rhy gynnar i arfarnu effeithiolrwydd y prosiect, mae cyswllt staff â dysgwyr, fel y rheiny sy'n gaeth i'r tŷ, yn eu galluogi i ddechrau mynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n atal y dysgwyr hyn rhag symud ymlaen.

47 Nid yw datblygiad hyfforddwyr dysgu ledled Cymru yn ddigon cyson hyd yma. Yn y gogledd ddwyrain, mae gan ran fwyaf yr ysgolion hyfforddwyr dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r sefyllfa hon gystal ledled y wlad. Lle mae yna hyfforddwyr dysgu, fel yng Nghaerffili, maent yn gwneud gwahanol swyddogaethau mewn gwahanol ysgolion. Mae hyn yn rhwystro'r cwmni rhag arfarnu gwahanol ymagweddau'n gynnar, oherwydd bod natur y cymorth, a'r mathau a ddysgwyr sy'n cael eu targedu, yn amrywio. Nid oes digon o eglurder o hyd o ran y gorgyffwrdd rhwng rolau hyfforddwyr dysgu a chynghorwyr gyrfa.

48 Nid yw'r rhan fwyaf o gwmnïau Gyrfa Cymru yn monitro effeithiolrwydd cydweithio rhwng hyfforddwyr dysgu a chynghorwyr gyrfaoedd nac yn olrhain cynnydd y cyfraddau atgyfeirio rhwng y staff hyn. Mae hyn yn rhwystro'r cwmnïau rhag arfarnu cynghorwyr gyrfaoedd a hyfforddwyr dysgu wrth iddynt weithio gyda'i gilydd i gynorthwyo dysgwyr.

## Cymorth personol

49 Mae gan holl gwmnïau Gyrfa Cymru strategaethau defnyddiol ar waith, fel Porth Addysg, sy'n rhoi cymorth ychwanegol i ddysgwyr y mae ysgolion a cholegau wedi nodi bod angen cymorth ychwanegol arnynt. Mae Porth Ieuenctid hefyd yn rhoi cymorth da i ddysgwyr sydd wedi gadael addysg.

50 Datblygodd Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain brawf medrau sylfaenol, a gymeradwywyd gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol. Mae staff yn defnyddio'r prawf hwn gyda'r rheiny sy'n gadael addysg i nodi eu hanghenion o ran medrau sylfaenol ac i gynnig cymorth priodol. O ganlyniad, rhwng mis Mawrth a mis Rhagfyr 2007, cafodd 12% (43) o'r holl ddechreuwyr yn y Porth Ieuenctid y cymorth hwn ac maent yn symud tuag at gymwysterau Medrau Sylfaenol City and Guilds.

51 Yn Nhorfaen, mae cydweithio da rhwng mentor i ddysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol a staff Porth Ieuenctid Gyrfa Cymru Gwent. Mae hyn wedi helpu dysgwyr i lwyddo yn eu lleoliadau gwaith.

52 Mae holl gwmnïau Gyrfa Cymru yn cydweithio'n effeithiol â Gwasanaethau Cymorth Ieuenctid a Rhwydweithiau Dysgu i ddatblygu strategaethau i feithrin cysylltiadau â dysgwyr 'nad ydynt mewn addysg, gwaith na hyfforddiant' (NEET).

53 Rhyddhaodd Gyrfa Cymru Gogledd Ddwyrain aelod o staff ar secondiad i Brosiect Cymorth Personol Sir y Fflint. O ganlyniad i'r prosiect hwn, mae'r cwmni a'r gwasanaeth ieuenctid yn cydweithio'n dda â'i gilydd i ennyn diddordeb pobl ifanc NEET. Mae'r prosiect hwn wedi meithrin cysylltiadau â 12 o bobl ifanc ac wedi'u helpu i symud ymlaen i addysg, gwaith neu hyfforddiant. Fodd bynnag, o ran y canlyniadau a gyflawnwyd, mae cost ariannol y prosiect yn rhy uchel.

54 Mewn tri o'r pum Rhwydwaith Dysgu yn ardal Gyrfa Cymru Gorllewin (Abertawe, Ceredigion a Sir Benfro), mae'r cwmni wedi recriwtio rheolwyr/swyddogion Cadw

Mewn Cysylltiad i weithio gydag asiantaethau eraill i leihau nifer y bobl ifanc NEET a nodi bylchau yn narpariaeth y cymorth i bobl ifanc. Mae'r ymagwedd hon wedi bod yn effeithiol o ran lleihau nifer y dysgwyr NEET yn yr ardaloedd hyn.

55 Ar y cyd â phartneriaethau pobl ifanc lleol a rhwydweithiau 14-19, comisiynodd Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro ymchwil i bobl ifanc NEET. Llywiodd yr ymchwil hwn strategaeth y cwmni i ddatblygu ei fodel Hyfforddwr Dysgu defnyddiol ar gyfer pobl ifanc sy'n anodd eu cyrraedd.

56 Mae'r cwmni hefyd wedi gwneud cyfraniad da i is-grŵp Hyfforddwyr Dysgu 14-19 Caerdydd. Mae'r is-grŵp wedi datblygu fframwaith cymorth i ddysgwyr, sy'n cynnwys yr hawliau a nodwyd yn elfennau 4, 5 a 6 Llwybrau Dysgu. Mae'r fframwaith hwn yn ddefnyddiol o ran galluogi sefydliadau i asesu p'un a ydynt yn darparu hawl dysgwyr i gael cymorth ai peidio.

57 Mae Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys wedi cyflogi cynghorydd gyrfaoedd i weithio yng Ngharchar y Parc ac wedi gwella'r cymorth sydd ar gael i ddysgwyr ifanc sy'n gadael y carchar. Mae hyn yn helpu i leihau nifer y troseddwyr ifanc sy'n gadael y carchar heb fynd i mewn i addysg, gwaith neu hyfforddiant.

## Cyngor ac arweiniad am yrfaoedd

58 Mae holl gwmnïau Gyrfa Cymru wedi rhoi cymorth da i Rwydweithiau Dysgu lleol pan fo'r rhwydweithiau wedi nodi'r angen i atgyfnerthu gallu dysgwyr i wneud penderfyniadau gwybodus am eu gyrfa. Maent wedi cyfrannu'n dda i helpu rhwydweithiau i gynllunio sut i ymateb i'r anghenion hyn.

59 Cynhaliodd Gyrfa Cymru Gwent ddigwyddiad gyrfaoedd ar ran Rhwydwaith Dysgu Casnewydd i gyflwyno disgyblion Blwyddyn 9 i'w dewisiadau Llwybrau Dysgu. Roedd cyfanswm o 1,500 o ddisgyblion o saith ysgol yn bresennol yn y sesiynau hanner diwrnod. Roedd y digwyddiad yn ddefnyddiol i ran fwyaf y disgyblion o ran darganfod mwy am syniadau am yrfaoedd a beth mae gwahanol swyddi'n ei gynnwys. Roedd tri chwarter y rheiny a oedd yn bresennol o'r farn eu bod yn deall byd gwaith yn well ar ôl cymryd rhan yn y digwyddiad.

60 Cynhyrchodd y cwmni hwn gryno ddisg defnyddiol hefyd a oedd yn cynnwys prosbectws o'r dewisiadau 14-19 a oedd ar gael i ddysgwyr yn ardal Rhwydwaith Dysgu Casnewydd. Roedd y prosbectws yn amlinellu'r llwybrau dilyniant y gallai'r dewisiadau eu hagor i ddysgwyr.

61 Rhoddodd Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys gymorth i Rwydwaith Dysgu Pen-y-bont ar Ogwr i drefnu Cynhadledd Llwybrau Dysgu/Gyrfaoedd ddefnyddiol. Helpodd y digwyddiad i ddysgwyr yng nghyfnod allweddol 4 archwilio'r cyfleoedd sydd ar gael iddynt yn eu hardal leol.

62 Defnyddiodd Gyrfa Cymru Gorllewin wybodaeth am y farchnad lafur leol yn dda i nodi'r angen i godi ymwybyddiaeth dysgwyr o'r cyfleoedd sydd ar gael yn y diwydiant ynni. Trefnodd y cwmni ddigwyddiad defnyddiol i roi gwybodaeth i ddysgwyr 14-19 ac i roi cyfle iddynt gyfarfod ag ystod eang o gyflogwyr o'r diwydiant.

63 Mae holl gwmnïau Gyrfa Cymru yn cynnig cymorth da i ddysgwyr i gynllunio eu dewisiadau ar gyfer cyfnod allweddol 4 a thu hwnt. Ym mron pob ysgol, mae cynghorwyr gyrfaoedd yn darparu sesiynau grŵp defnyddiol i drafod dewisiadau. Maent yn ychwanegu at y rhain gyda chyfweliadau arweiniad defnyddiol yng nghyfnodau allweddol 3 a 4.

64 Mae enghreifftiau da o gynllunio lleol yng nghwmnïau Gyrfa Cymru i ystyried yr effaith y gall Llwybrau Dysgu ei chael ar anghenion cyngor ac arweiniad dysgwyr. Yn 2006-7, nododd Gyrfa Cymru Caerdydd a'r Fro fod cynnydd o 14% yn nifer y dysgwyr ym Mlwyddyn 9 a oedd yn gofyn am gyfweliad arweiniad unigol, o gymharu â 2005-06, a chynnydd o 32% yn y nifer a gytunodd ar gynlluniau symud ymlaen. Yn ei gynllun busnes ar gyfer 2007-08, cynyddodd Gyrfa Cymru Morgannwg Ganol a Phowys yr amser a ddyrannodd ar gyfer cyfweliadau arweiniad yn ymwneud â dewisiadau 14+ yn barod ar gyfer y penderfyniadau mwy cymhleth yr oedd angen i rai pobl ifanc eu gwneud o fewn Llwybrau Dysgu. Nid yw'r cwmni wedi arfarnu effaith yr ailddyraniad hwn o adnoddau hyd yma.

65 Fodd bynnag, nid yw cwmnïau Gyrfa Cymru wedi arfarnu na rhannu arfer orau ddigon hyd yma i nodi a chytuno ar sut y gall cynlluniau busnes a strategaethau ar gyfer dyrannu adnoddau ymateb orau i effaith Llwybrau Dysgu ar anghenion arweiniad dysgwyr.

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| Anghenion dysgu ychwanegol | Mae'r term hwn yn cwmpasu ystod eang o anghenion. Rydym yn defnyddio'r term mewn perthynas â dysgwyr sydd ag anghenion sy'n wahanol i anghenion y rhan fwyaf o'u cymheiriaid, am nifer o wahanol resymau, gan gynnwys dysgwyr:<br>• sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA), fel y diffinnir gan Cod Ymarfer AAA Cymru (2002);<br>• sy'n anabl, fel y diffinnir yn Neddf Gwahaniaethau ar Sail Anabledd 1995;<br>• sydd ag anghenion meddygol;<br>• sydd ag anawsterau emosiynol, cymdeithasol ac ymddygiadol;<br>• sy'n fwy galluog a thalentog na'r rhan fwyaf o'u cymheiriaid; ac<br>• sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol. |
| Awdurdod lleol | Awdurdod neu gyngor sy'n gyfrifol am ddarparu ystod eang o wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys addysg i ddisgyblion o oed ysgol, mewn ardal benodol. |
| Cadw Mewn Cysylltiad (CMC) | Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gofyn i wasanaethau cymorth ieuenctid fod yn fwy cydlynol yn y modd y maent yn cynorthwyo pobl ifanc nad ydynt mewn addysg, gwaith neu hyfforddiant. Yn gyffredinol, yr enw a roddir ar hyn yw'r strategaeth 'Cadw Mewn Cysylltiad' neu CMC. Mae'r strategaeth hon yn ymwneud â helpu sefydliadau i rannu gwybodaeth yn fwy effeithiol er mwyn helpu pobl ifanc i fynd i mewn i addysg, gwaith neu hyfforddiant ac aros yno. |
| Cyfnodau allweddol | Mae'r Cwricwlwm Cenedlaethol yn rhannu'r cyfnod o addysg orfodol i'r pedwar cyfnod allweddol canlynol:<br>• cyfnod allweddol 1 i ddisgyblion rhwng pump a saith oed;<br>• cyfnod allweddol 2 i ddisgyblion rhwng saith ac 11 oed;<br>• cyfnod allweddol 3 i ddisgyblion rhwng 11 a 14 oed;<br>• cyfnod allweddol 4 i ddisgyblion rhwng 14 ac 16 oed. |
| Lefel UA | Tystysgrif Addysg Gyffredinol ar lefel uwch atodol |
| Llwybrau Dysgu 14-19 | Strategaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer datblygu a gwella cyfleoedd addysg a hyfforddiant i rai 14 i 19 oed y cyfeirir atynt yn 'Y Wlad sy'n Dysgu' (2001) ac 'Y Wlad sy'n Dysgu: Llwybrau Dysgu 14-19' (2002). |
| Medrau sylfaenol | Y gallu i siarad, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg neu'r Saesneg a defnyddio mathemateg ar lefel sydd ei hangen i weithio ac i weithredu yn y gymdeithas. |
| Rhwydweithiau Dysgu 14-19 | Grŵp strategol o ddarparwyr addysg a hyfforddiant mewn ardal leol, a sefydlwyd fel rhan o 'Llwybrau Dysgu 14-19' |